

Helo fy enw i yw Richard Wathen. Rydyn ni yma ym MOSTYN yn Llandudno yn yr agoriad o fy sioe newydd o'r enw 'Llygaid Newydd Bob Tro'. Mae'r sioe yn cynnwys naw paentiad: dau o 2019 a'r gweddill i gyd o 2020.

Rwy'n meddwl fy mod i'n canolbwyntio'n gyffredinol ar y gweithiau hyn yn eisiau, mewn ffordd, symleiddio fy ymarfer.

I wneud y paentiadau yn fwy ddigroen a'u lleihau bron i'w hanfod mewn gwirionedd, a gosod y ffigurau mewn math o di-le, yn sicr nid yn fath o dirwedd gydnabyddedig.

Mae'r paentiad yma yr oeddwn yn siarad yn gynharach amdano - y paentiad mawr - wedi bod yn olygfa o'r blaen, yn fath o olygfa ymdrochwyr cydnabyddedig, ond sylweddolais na fyddai, ni fyddent yn gweithio'n arbennig o dda gyda'r gweithiau eraill.

Rydych chi'n gwybod, lle mae gennych chi hyn, math o esthetig lleiafysmiol, y math o floc, bron y di-le. Ac, roedd o dim ond yn, fath o, orfod dod yr hyn ydyw yn awr fel y gallai weithio gyda'r lleill. Ond hynny, ie mae o eto dim ond y peth hwnnw o beidio â gadael y gwaith yn agored i'w ddehongli. Nid oes unrhyw bendant; ni allwch ei binio i lawr mae'n debyg. Mae gen i ddiddordeb erioed yn yr oesol, neu'r math o arafwch o baentio. Fel bod pethau'n datgelu eu hunain, i mi a dyna'n rhannol yr hyn y mae'r teitl yn cyfeirio ato. Felly ddarganfyddais pethau newydd trwy'r amser ond, gobeithio, bydd y gwyliwr hefyd. Wel, yn sicr pan oeddwn i yn ôl yn ysgol gelf roeddwn yn gwneud gwaith haniaethol yn bennaf a chredaf mai'r gwaith y cefais fy ysbrydoli fwyaf gan oedd y mynegwyr haniaethol, ac yn ddiweddarach, yn bwysicach mae'n debyg, byddwn i'n dweud gwaith Philip Guston. Ac felly, mewn ffordd, nid oedd y syniad o wneud portreadau yn rhywbeth roeddwn i erioed wedi'i ystyried mewn gwirionedd. Ac yna dwi'n meddwl tua 2002/2003, wn i ddim, dwi ddim yn siŵr iawn pam, fe wnes i orffen paentio anghenfil Frankenstein.

Ac rwy'n credu roeddwn i ond a diddordeb yn y syniad o'r math o bethau yn cael eu dwyn ynghyd - yr adeiladwaith. Ac yn sydyn, cyn gynted ag y gwnes i'r paentiad yma, roeddwn i, roeddwn i'n gwybod mai dyna'r ffordd gywir i fynd, ac yn sicr y berthynas mae gan y gwyliwr o fewn yr oriel, i mi fodd bynnag, rydw i o hyd yn cael fy nhynnu at, roedd o bron fel y math o gyswllt, mae'r wyneb o hyd yn fy nhynnu i mewn. Felly, fel dwi'n dweud nid yw... Dwi byth yn eu gweld fel... dydyn nhw ddim... nid oes gen i ddiddordeb mewn gwneud portread o rywun. Mae'n fwy bod gen i ddiddordeb yn y naws o fod yn fyw, breuder, bregusrwydd. Ac mae llawr ohono'n deillio o gyfeiriadau hunangofiannol dwi'n meddwl, ac nid yw hynny'n rhywbeth rydw i o reidrwydd eisiau i'r gwyliwr fod, chi'n gwybod, wedi'i orfodi ag, ond mae'n caniatáu agoriad neu ffordd i mewn i'r gwaith i mi, mae'n debyg.

Yn sicr, mae'r ddelweddaeth rwy'n ei defnyddio yn amrywiol iawn, llawer o ffynonellau delweddu ar-lein, hen lyfrau. Ac mae'n rhywbeth rydw i wrth fy modd yn ei wneud. Mae bron yn caniatáu cyfle i chi, chi'n gwybod, ddod o hyd i ddelwedd yma neu hysbyseb o'r 70au neu rywbeth, ac yna mae yna fath o bot toddi, mewn ffordd, dros amser.

Ac felly byddaf yn atodi'r ddelwedd hon i'r ffilm honno neu'r cof hwnnw ac felly dim ond achos o bethau ydyw, rywsut, dod o hyd i dair neu bedair elfen efallai sy'n ymddangos yn gwneud synnwyr fel syniad ar gyfer paentiad mewn ffordd. Ond fel dwi'n dweud mae'n reddfol iawn, ac rydw i'n eithaf hapus i ddibynnu, chi'n gwybod, ar hynny fel ffordd dda o ddechrau. Nid yw'n golygu dweud eu bod yn aros felly.

Byddent yn aml yn newid llawer yn ystod y gwneud. Ac rwy'n meddwl bod rhan o'r rheswm mae'r gweithiau yn cymryd cymaint o amser i wneud yn unig o ganlyniad i... oherwydd gallwch weld o ran y paentiad gorffenedig wedyn, chi'n gwybod, nid oes yna unrhyw beth

yna i awgrymu bod yna misoedd a misoedd werth o waith. Ond, rwy'n meddwl, chi'n gwybod, yn sicr os fyddech am greu delwedd belydrau unrhyw un ohonynt, mae yna nifer o luniau eraill o dan a dyna le mae'r amser gwir yn cael ei wario. Ac rwyf wir yn hoffi gadael i'r gwaith fy arwain mewn ffordd, ac i bron a derbyn bod yna fath o bwynt yr ydych bron yn darganfod o fewn y gwaith yr ydych yn cyrraedd, ac wedyn rydych yn fath o wedyn: iawn dyna ni, rwy'n gwybod lle mae'n mynd rŵan. Ond gall hynny fod yn syth felly, rwy'n meddwl, yn ddigon doniol, hwn, y llun draw fan hyn oedd yr un olaf cychwynnais ond mewn gwirionedd oedd yr un cyntaf i gael ei orffen, oherwydd iddo ddatrys ei hun yn ffodus iawn. Rwyf bob amser yn gweithio ar fwy nag un, yn anaml iawn y byddaf yn gweithio ar un ar y tro. Rwy'n hoff iawn o'u hadeiladu'n araf dros amser. Ac mae rhywbeth, rwy'n meddwl rhywbeth rydw i wir wedi mwynhau gyda'r gweithiau hyn, fel y soniais yn gynharach o ran gwagio allan, hefyd yn caniatáu i'r gwaith anadlu llawer mwy, a pheidio bod mor goeth, a derbyn chi'n gwybod y blodyn yn bod, i ddechrau yn fath o blot i mi - dyna le byddai'r blodyn - neu rhywbeth, ond mewn gwirionedd nid wyf yn credu ei fod ei angen, angen mwy o waith na hynny, felly dyna ni ac rwy'n teimlo'n dda gyda hynny mewn gwirionedd.